Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

**Cyfarfod:** Bwrdd Perfformiad Strategol
**Lleoliad:** Pencadlys SCC004
**Dyddiad:** 16 Ionawr 2025
**Amser:** 10:30-12:30

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis (PG)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl, Ifan Charles (DBG)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Gary Phillips (PGC)<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams<br>Pennaeth Strategaeth a Pholisi SCHTh, Claire Bryant |
| **Hefyd yn bresennol:** | Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, Yr Uwch-arolygydd Dros Dro Louise Harries (LH)<br>Uwch Reolwr – Perfformiad a Dadansoddeg. Lowrie Procter (LP)<br>Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey (GS)<br>Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans (PW)<br>Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth SCHTh, Alison Perry<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies (PSCDD)<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries (CC)<br>Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling (PSC SCHTh) |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd cyflwyniadau gan fynychwyr y cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Cyllid Dros Dro.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| SPB001 | Adroddiad i'w rannu â'r CHTh ynghylch gwaith ar ffactorau sy'n effeithio ar amser ymateb ar ôl i'r heddlu gwblhau'r gwaith. | Ar y gweill |
| SPB002 | Cyfarwyddwr Comisiynu i gysylltu â'r Uwcharolygydd Chris Neve ynghylch cynllun peilot ar gyfer lleoedd triniaeth ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau. | Ar y gweill |
| SPB003 | Ffeithlun gwybodaeth ar wasanaethau a gomisiynwyd i'w rhannu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'r PGC. | Wedi'i gwblhau – Rhannwyd ffeithlun trwy'r Swyddog Staff |
| SPB004 | Diweddariadau cyllido ar gyfer y ddyletswydd trais difrifol a mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w cynnwys yn y Bwrdd Newid a Thrawsnewid yn y dyfodol. | Wedi'i ryddhau i'r heddlu a chaiff ei ddiweddaru mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. |

## 3. Perfformiad yr heddlu

### a) Adroddiad perfformiad yr heddlu

Cadeiriwyd cyfarfod Bwrdd Perfformiad yr Heddlu gan y Prif Gwnstabl cyn y Nadolig. Yn y dyfodol, bydd cyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad Strategol yn cyd-fynd yn agos â chyfarfodydd perfformiad yr heddlu gyda'r Prif Gwnstabl. Gofynnodd y CHTh i'r prif swyddogion pa feysydd o ran perfformiad sy'n feysydd pryder a meysydd sy'n waith ar y gweill?
Dywedodd y Prif Gwnstabl ei fod yn falch o berfformiad yr heddlu ar hyn o bryd, ond bod lle i wella bob amser. Roedd yr heddlu wedi lleihau troseddu 18% o fewn ardal yr heddlu, cyfradd well nag unrhyw le arall yn y wlad – y cyfartaledd cenedlaethol yw 4%. Mae cyfradd canlyniad cadarnhaol yr heddlu hefyd o fewn y tri uchaf yn y wlad yn dibynnu ar ba fis y cymerir yr wybodaeth. Dywedodd y Prif Gwnstabl hefyd fod y gyfradd gyhuddo am gam-drin domestig yn un o'r gorau yn y wlad. Mae'r nifer o newidiadau a wnaed o fewn yr heddlu dros y 12-18 mis diwethaf bellach yn dangos canlyniadau.

Parhaodd y Prif Gwnstabl i esbonio bod y gyfradd rhoi'r gorau i alwadau ar gyfer galwadau 101 wedi gostwng o dros 30% i tua 14-16% ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2024. Dyma faes y bydd yr heddlu'n parhau i ganolbwyntio arno wrth iddynt ymgorffori amlswyddogaeth yr ystafell reoli a hollgymhwysedd y staff sy'n gweithio o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

Mae darn o waith proffil problem wedi'i greu ynghylch nifer y gwrthdrawiadau traffig ffordd angheuol a gwrthdrawiad sy'n achosi anafiadau difrifol sy'n digwydd ar y ffyrdd o fewn ardal yr heddlu. Cododd y CHTh bwysigrwydd partneriaid yn cydweithio yn y maes gwaith hwn, gan gynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cefnffyrdd a sefydliadau partner.

Ystyriodd y bwrdd y data a ddarparwyd yn adroddiad perfformiad yr heddlu sy’n adlewyrchu cyfnod chwarter 3 2023/24 (Hydref 2024 - Rhagfyr 2024) oni nodir yn wahanol. Trafododd y bwrdd hysbysu am droseddau o fewn 24 awr a holodd y CHTh am nifer y galwadau a dderbyniwyd i Ganolfan Gyfathrebu’r Heddlu, a oedd wedi cynyddu ym mis Rhagfyr. Eglurodd y Prif Gwnstabl fod hyn oherwydd storm Darragh. Roedd wedi bod yn gyfnod prysur iawn i’r heddlu ac er y gweithredwyd dull amlasiantaeth ar draws ardal yr heddlu, fe wnaeth ymestyn nifer y galwadau i’r heddlu yn sylweddol. Mae’r swyddogaeth galw’n ôl wrth ffonio 101 wedi’i chyflwyno’n gynharach o fewn galwad, gan ganiatáu i aelodau’r cyhoedd adael eu manylion cyswllt, ac yna bydd Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu’n eu galw yn ôl. Dywedodd y CHTh ei fod yn parhau i fod â diddordeb penodol yng Nghanolfan Gyfathrebu’r Heddlu.

**Camau gweithredu: - Trefnu ymweliad â Chanolfan Gyfathrebu’r Heddlu ar gyfer y CHTh.**

Gofynnodd y CHTh a oedd yr heddlu yn parhau i brofi problemau o fewn ardaloedd yr heddlu o ran amseroedd ymateb i alwadau ar unwaith a galwadau â blaenoriaeth.  Wrth archwilio’r amser cyfartalog (Hydref 2024 – Rhagfyr 2024) Llanbedr Pont Steffan oedd yr unig ardal arolygwyr i beidio â chyrraedd y cytundeb lefel gwasanaeth o 20 munud, gyda chyfartaledd o 24.6 munud. Mae’r amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer digwyddiadau blaenoriaeth yn amrywio yn ystod y cyfnod, gyda thair ardal (Rhydaman, Llanbedr Pont Steffan, Sir Drefaldwyn) yn cymryd yn hirach na’r dangosydd perfformiad allweddol 60 munud. Esboniodd y Prif Gwnstabl, oherwydd natur ddaearyddol yr heddlu, y bydd amser ymateb i alwadau yn amrywio o fewn ardaloedd yr heddlu.Hefyd, mae rhai ardaloedd o’r heddlu yn cael nifer isel o alwadau, ac o ganlyniad gall data o rai ardaloedd yr heddlu effeithio’n sylweddol ar y ffigurau. Dywedodd y Prif Gwnstabl eu bod wedi bod yn weithgar iawn yn sicrhau bod amseroedd ymateb yn cael eu cryfhau. Dywedodd y PGC fod y Prif Arolygydd Steve Thomas wrthi’n cwblhau adroddiad ynghylch amseroedd ymateb.

Gofynnodd y CHTh i’r Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliad beth oedd y diddordeb a’r recriwtio presennol gan unigolion sydd eisiau ymuno â’r heddlu. Esboniodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliad fod yr heddlu yn dal i golli pobl i’r byrddau iechyd gan eu bod nhw’n gallu talu cyflogau uwch a chynnig diogelwch swydd hefyd. Roedd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliad yn obeithiol y byddai recriwtio’n cynyddu gyda’r newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Mae fideo recriwtio wedi cael ei greu gan yr heddlu.

Fel rhan o’r arolwg mewnwelediad dioddefwyr, mae rhwyddineb y cyswllt cychwynnol a lefelau boddhad â’r gwasanaeth a dderbynnir yn cael eu cofnodi. Rhannodd y PGC yr wybodaeth ddiweddaraf sef bod yr heddlu ar hyn o bryd yn gweithio ar ap a fyddai’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr. Yr amserlen ar gyfer datblygu ar hyn o bryd yw 3 i 6 mis.

**Camau gweithredu: - Bydd SCHTh yn trefnu sesiwn friffio i'r CHTh gan yr arolygydd Gerallt Jones ynghylch datblygu ap diweddaru dioddefwyr.**

Darparwyd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd ar gyfer yr heddlu yn 2024 i'r bwrdd. Gellir gweld tuedd dymhorol nodweddiadol gyda chynnydd mewn cofnodion troseddau yn ystod misoedd yr haf. Cofnodwyd cyfanswm o 39,677 o droseddau yn y flwyddyn galendr 2024, mae hyn yn ostyngiad cyffredinol o'i gymharu â blynyddoedd calendr blaenorol (cofnodwyd cyfanswm o 40,724 o droseddau yn 2023, cofnodwyd cyfanswm o 47,056 o droseddau yn 2022).

Trafododd y bwrdd feysydd blaenoriaeth y Prif Gwnstabl o ran cam-drin domestig, mae nifer y digwyddiadau a throseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd wedi aros yn sefydlog wrth fyfyrio dros amser. Gellir gweld cynnydd cadarnhaol wrth arsylwi ar gyfraddau canlyniad 1 (cyhuddo) dros gyfnod o amser. Mae'r cynnydd hwn hefyd yn amlwg wrth arsylwi'r 'canlyniad cadarnhaol'.  Gofynnodd y CHTh a allai'r heddlu weld amser pan fyddai'r ffigurau hyn ar gyfer cam-drin domestig yn lleihau. Dywedodd y Prif Gwnstabl, fel ar gyfer gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, fod hwn yn ymateb amlasiantaeth, a bod gwaith yr heddlu yn rhan o ymateb ehangach i gam-drin domestig. Esboniodd y Prif Gwnstabl fod yr heddlu yn ddibynnol iawn ar asiantaethau partner i gynorthwyo yn hyn o beth. Trafododd y bwrdd fanteision a llwyddiannau cael swyddogion troseddau rhywiol wedi'u hyfforddi'n arbennig o fewn yr heddlu.

Trafododd y bwrdd y ffigurau ynghylch boddhad dioddefwyr a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ar hyn o bryd mae'r heddlu'n allanoli ei arolygon dioddefwyr ar gyfer casglu mewnwelediadau gan ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu, cam-drin domestig a stelcio. Mae ymarferion sicrhau ansawdd mewnol hefyd yn cael eu cwblhau bob mis, gan sicrhau bod yr heddlu'n asesu ac yn dogfennu digonolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr ymateb plismona yn systematig gan ganolbwyntio ar sicrhau bod polisïau'n cael eu dilyn a bod ymchwiliadau o ansawdd uchel yn cael eu cwblhau. Mae canlyniadau'r arolygon dioddefwyr a sicrhau ansawdd yn rhoi cyfleoedd i nodi dysgu unigol a/neu sefydliadol, ac i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer arferion gorau yn y dyfodol.

Trafododd y bwrdd berfformiad yr heddlu o ran treisio a throseddau rhywiol eraill. Mae nifer y troseddau treisio a gofnodwyd wedi aros yn gyson dros amser. Ar gyfer y flwyddyn galendr 2024, y gyfradd gyhuddo gyffredinol am droseddau treisio oedd 7.41%. Gellir gweld cynnydd bach yng nghofnodion troseddau rhywiol eraill, fodd bynnag, o ystyried natur y troseddau hyn nid oes tueddiadau clir a rhaid ystyried tueddiadau hanesyddol.  Trafododd y bwrdd sut mae canlyniadau troseddau rhywiol eraill yn cael eu categoreiddio. Rhoddodd y PGC ddiweddariad byr ar ymgyrch Soteria.

**Camau gweithredu: - Dylai SCHTh ddarparu gwybodaeth i'r CHTh ynghylch pa droseddau sydd wedi'u rhestru o dan 'troseddau rhywiol eraill' a beth yw achosion y cynnydd yn nifer y 'troseddau rhywiol eraill' a adroddir?**

Ystyriodd y bwrdd yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch troseddau cyffuriau; nid oes unrhyw duedd i'w gweld wrth archwilio nifer y troseddau masnachu cyffuriau a gofnodwyd dros amser. Mae gostyngiad yn y gyfradd gyhuddo a chynnydd yng nghanlyniad 18 yn amlwg ym mis Rhagfyr 2024. Byddai angen ymchwil pellach i

ddeall y newid hwn a bydd yn cael ei gynnal os bydd y duedd hon yn parhau. Mae cyfran sylweddol o droseddau meddu ar gyffuriau yn cael eu datrys drwy ddatrysiad cymunedol, mae hyn yn dilyn newid polisi a ddigwyddodd o fewn yr heddlu a ddaeth i rym o fis Hydref 2023. Wrth archwilio canlyniadau cyhuddo (canlyniad 1) a datrysiad cymunedol (canlyniad 8) dros amser, gellir gweld newid clir, yn unol â'r diweddariad i'r polisi cyffuriau, sy'n annog defnyddio datrysiadau cymunedol ac atgyfeiriadau i'r prosiect datrysiad troseddau cyffuriau y tu allan i'r llys. Mae'n bwysig nodi'r addasiad polisi hwn wrth ddadansoddi data cenedlaethol, o ystyried nad yw pob heddlu wedi mabwysiadu'r dull hwn ac felly maent yn dal i fynd ar drywydd cyhuddiadau.

Cwblhawyd gwerthusiad interim gan Adran Cudd-wybodaeth yr Heddlu ym mis Rhagfyr 2024 o amgylch y prosiect datrysiad troseddau cyffuriau tu allan i'r llys. Roedd gan y prosiect dri phrif amcan – dargyfeirio a thrin, cynyddu capasiti swyddogion yr heddlu a lleihau oedi yn y broses cyfiawnder troseddol.
Dangosodd y gwerthusiad o nod 1, ym mis Hydref 2024, fod cyfanswm o 868 o atgyfeiriadau wedi'u cwblhau (cyfartaledd o 72 o atgyfeiriadau'r mis), 686 o atgyfeiriadau wedi'u cau, 182 o atgyfeiriadau'n dal ar agor, 561 allan o 686 wedi cwblhau triniaeth a dargyfeirio (cyfradd ymgysylltu o 81.7%).
Dangosodd metrigau sydd ar gael ar borth ar-lein 'Breaking Free' gyfradd gadw o 94.4% o gyfranogwyr a gwelir rhai gostyngiadau mesuradwy trwy hunanasesiad cyfranogwyr (gostyngiad o 100% wedi'i gofnodi ar gyfer defnyddio cocên a gostyngiad o 78.6% mewn defnyddio canabis).
Dangosodd y gwerthusiad o amcan dau y byddai 863 o atgyfeiriadau datrysiad cymunedol oedolion ar gyfer meddiant syml yn debygol o fod wedi arwain at arestio, cyfnod yn y ddalfa a pharatoi ffeiliau (cyfnod o bump awr o amser swyddog o'i gymharu â 10 munud ar y stryd). Arbediad o tua 4,315 o oriau plismona (180 diwrnod) a roddodd y cyfle i ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill.
Dangosodd y gwerthusiad o amcan tri y gellir gweld gostyngiad o 53% mewn ymchwiliadau troseddau cyffuriau agored (Hydref 2023 = 599 o'i gymharu â Hydref 2024 = 323)

Trafododd y bwrdd y perfformiad presennol o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar hyn o bryd mae gan dîm y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 4292 o achosion yn eu llwyth gwaith i brosesu, mae'r galw gwirioneddol yn parhau i gynyddu, ac mae nifer y ceisiadau a dderbynnir yn gyson uwch na'r rhagolwg, gan wneud cynllunio a rhagweld yn anodd.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i ddarparu diweddariad cryno i'r CHTh ynghylch llwyth gwaith y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

### b) Perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau Troseddu a Phlismona Cenedlaethol

Dylai'r bwrdd ystyried y cyflwyniad ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol. Amcan y Mesurau Troseddu a Phlismona Cenedlaethol yw helpu i ganolbwyntio ymdrech ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan ganiatáu i berfformiad gael ei fesur a helpu i ddangos gwerth am arian mewn plismona. Adroddir ar fesurau procsi yr heddlu ar gyfer y 12 mis diweddaraf (Ionawr 2024 – Rhagfyr 2024) (oni nodir yn

wahanol). Y cyfnod amser ar gyfer y set ddata gwaelodlin* yw Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019.

Trafododd y bwrdd y ffigurau ynghylch lleihau llofruddiaethau a lladdiadau eraill, 4 ohonynt yn ystod Ionawr 2024 a Rhagfyr 2023 (4 o'i gymharu â 7) o'r gwaelodlin*.

Trafododd y bwrdd yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch lleihau troseddau yn y gymdogaeth

- Gostyngiad o 3.5% mewn bwrgleriaeth (preswyl) - gwaelodlin: 1,063 o'i gymharu â 1026 yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2024.
- Cynnydd o 58.1% mewn dwyn o unigolion - gwaelodlin: 86 o'i gymharu â 136 yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2024.
- Gostyngiad o 46.6% mewn dwyn o gerbydau - gwaelodlin: 562 o'i gymharu â 300 yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2024.
- Lladrad (personol) cynnydd o 61.9% mewn lladrad (personol) - gwaelodlin: 63 o'i gymharu â 102 yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2024.
- Cynnydd o 358.9% mewn lladrad o gerbydau - gwaelodlin: 39 o'i gymharu â 179 yn y 12 mis hyd at Ragfyr 2024.

Gofynnodd y CHTh a oedd unrhyw arwydd a fyddai'r llywodraeth newydd yn cadw'r mesurau perfformiad cenedlaethol presennol. Rhoddodd Lowrie Procter ddiweddariad bod gwaith yn parhau yn y maes hwn, a byddent yn disgwyl cyd-fynd â'r fframwaith perfformiad presennol. Dywedodd y CHTh ei fod wedi cael cais i ymgysylltu yn y maes hwn gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

## 4. Trafodaeth ar fframwaith perfformiad y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd

Nododd y Pennaeth Strategaeth a Pholisi y newyddion y byddai tîm polisi'r SCHTh yn adolygu'r fframwaith gyda'r CHTh ar ddiwedd y mis ac yn cytuno ar y metrigau a fyddai'n sail i adroddiadau ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Perfformiad Strategol wedi hynny ac yna bydd metrigau eraill yn cael eu gweld ar sail sgematig gan gynnwys trafodaethau blaenoriaeth.

**Camau gweithredu: - Adborth gan y CHTh a SCHTh ynghylch y fframwaith perfformiad i'w rannu â'r Uned Gwella Gwasanaethau.**

## 5. Trosolwg o wasanaethau a gomisiynwyd a chyllid grantiau

Rhoddodd y CHTh, ar ran Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth, drosolwg o'r cyflwyniad a roddwyd i'r bwrdd ar gomisiynu a chyllido. Nododd y CHTh y newyddion diweddaraf fod toriad o 4.2% i gyllideb graidd dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (-£25,422 mewn termau real) sydd wedi lleihau'r gyllideb i £582,885. Dywedodd y CHTh ei fod yn hyderus y gall cyllideb ehangach swyddfa'r comisiynydd gynnal y gostyngiad, gyda blaenoriaeth i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen heb unrhyw doriadau i Wasanaethau

Cynghori Annibynnol Domestig/Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Mae disgwyl setliad aml-flwyddyn o fis Ebrill 2026.

Rhoddodd y CHTh drosolwg o'r contractau a ddyfarnwyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau Dyfed sydd â gwerthusiad ar y gweill ar hyn o bryd, a disgwylir canlyniad ym mis Ionawr 2025. Y cynllun dargyfeirio troseddwyr a ddyfarnwyd i adran gofal a chymorth Pobl, a gafodd gontract newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2025.Mae'r gwasanaeth dadfriffio a chyfryngu i bobl ifanc wedi'i ddyfarnu i Llamau, sef y darparwr presennol gyda chontract newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2025. Derbyniwyd diweddariad hefyd ynghylch gwasanaethau a gomisiynwyd. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaeth amldrosedd cymorth i ddioddefwyr, gwasanaeth cymorth stelcio a chynllun peilot y ddalfa yn treialu presenoldeb Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn nalfa Dafen. O ran diweddariad cyfiawnder troseddol, bydd y Prosiect Pathfinder yn cael ei weithredu yn ardal barnwr teulu dynodedig canolbarth a gorllewin Cymru sy'n cwmpasu Dyfed Powys a bydd yn mynd yn fyw ar 3 Mawrth 2025.

Rhoddodd y CHTh yr wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau a wynebir yn y maes comisiynu, gan gynnwys yr heriau a'r ansicrwydd ynghylch cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Dywedodd y CHTh fod trafodaethau wedi'u cynnal fel rhan o'r papur gwyn a gweithgaredd diwygio'r heddlu ynghylch cryfhau rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a dywedodd, os yw hyn am ddigwydd, y dylai ddigwydd o fewn y gofod comisiynu ac am gynyddu cyllid trwy gomisiynwyr yn lleol. Tynnodd y CHTh sylw hefyd at faterion ynghylch diffyg cyllid partneriaeth ar gyfer yr agenda trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Darparwyd trosolwg o gyllid grant allanol yn y cyflwyniad ynghylch cyllid mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol, Strydoedd Saffach 5 a'r ddyletswydd trais difrifol.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad ar gynnydd ariannu prosiect Dafen gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed ac y byddai'r Uwcharolygydd Chris Neve a Chyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth yn ceisio rhoi sicrwydd ynghylch y cyllid sydd ar gael i ariannu'r gwaith allgymorth ehangach yn Llanelli. Byddant yn gweithio'n rhagweithiol fel dull atal a pheidio ag aros nes bod trosedd wedi'i gyflawni cyn cynnig cymorth rhaglenni adsefydlu i gamddefnyddwyr sylweddau.

## 6. Unrhyw fater arall

### a. Asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Nododd y CHTh y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data gan ddatgan ei fod wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar yn trafod manteision a heriau rhannu gwybodaeth â banc data SAIL sy'n cael ei redeg gan Brifysgol Abertawe. Y nod oedd darparu data ar lefel Cymraeg i'r banc, ond mae hyn yn dod yn fwy o her o safbwynt diogelwch data a rheoli gwybodaeth. Ar hyn o bryd, mae'n cymryd cyfnod hir o amser i asesiad o'r effaith ar ddiogelu data gael ei gymeradwyo gan yr heddlu. Rhoddodd LH ddiweddariad ynghylch hyn sef bod asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn faes sy'n mynd trwy weithgarwch gwella parhaus ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'r capasiti i gwblhau'r gwaith yn broblem.

## b. Cyfiawnder ieuenctid

Trafododd y CHTh yr arolygiadau o ddarpariaethau cyfiawnder ieuenctid o fewn ardal yr heddlu.  Yn dilyn cyfarfod ag arweinwyr cyfiawnder ieuenctid, nodwyd themâu cyson a bod angen i'r heddlu gadarnhau pwy oedd yr arweinydd strategol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid o fewn yr heddlu. Nodwyd hefyd anghysondeb yn y ffordd y darperir cyfiawnder adferol ieuenctid a datrysiadau, a nodwyd problem ynghylch amseriad derbyn atgyfeiriadau cyfiawnder ieuenctid i'r gwasanaeth. Cadarnhaodd yr heddlu i'r CHTh pwy yw arweinydd presennol yr heddlu yn yr ardal hon.

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 16 Ionawr 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| SPB005 | Ymweliad â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w drefnu ar gyfer y CHTh. | SCHTH |
| SPB006 | Bydd yr SCHTh yn trefnu sesiwn friffio i'r CHTh gan y Prif Arolygydd Gerallt Jones ynghylch datblygu ap diweddaru dioddefwyr. | SCHTH |
| SPB007 | SCHTh i ddarparu gwybodaeth i'r CHTh ynghylch pa droseddau sydd wedi'u rhestru o dan 'troseddau rhywiol eraill' a beth yw achosion y cynnydd yn nifer y 'troseddau rhywiol eraill' a adroddir? | SCHTH |
| SPB008 | Yr heddlu i ddarparu diweddariad cryno i'r CHTh ynghylch llwyth gwaith Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Yr heddlu |
| SPB009 | Adborth gan y CHTh a'r SCHTh ynghylch y fframwaith perfformiad i'w rannu â'r Uned Gwella Gwasanaethau. | SCHTH |

DIWEDD